Ysgol Cybi

Gweithdrefn Rhannu Gwybodaeth gyda Awdurdodau Heddlu'r Deyrnas Unedig (Gwynedd a Môn) / *Procedure for Sharing Information with Police Authorities in the United Kingdom (Gwynedd & Anglesey)*

(Fersiwn 2, Hydref 2021 / *Version 2, October 2021*)

Fersiwn / *Version*	**Dyddiad / *Date***	**Crynodeb o newidiadau / *Summary of changes***	**Dyddiad a Dderbyniwyd gan Fwrdd o Lywodraethwyr / *Date Accepted by Board of Governors***
F1/*V1*	Gorffennaf 2021 / *July 2021*	Gweithdrefn newydd / *New procedure.*	
F2/*V2*	Hydref 2021 / *October 2021*	Newid i baner y ddogfen a mân newidiadau / *Change to the document banner & minor changes*	30/09/26

Dyddiad yr adolygiad nesaf / *Date of next review*	
Bydd y gweithdrefn hon yn cael ei adolygu gan Ynys Môn yn: / *This procedure will be reviewed by Anglesey in:*	Hydref 2024 / *October 2024*
Yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad fydd: / *The review will be undertaken by:*	Swyddog Diogelu Data Ysgolion Môn / Anglesey *Schools Data Protection Officer*

Manylion Cyswllt Môn:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

E-bost:
dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Contact Details for Anglesey:

Schools Data Protection Officer

E-mail:
dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Telephone: 01248 751833

Address:
Learning Service
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r weithdrefn hon ar ffurfiau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. / *We are happy to provide this procedure in alternative formats on request. Please use the above contact details.*

Cynnwys **Tudalen**

1. Rhagymadrodd 4
2. Amcanion y Weithdrefn 4
3. Egwyddorion 4
4. Cyfrifoldebau 5
   4.1. Y Corff Llywodraethol 5
   4.2. Y Pennaeth/Rheolwyr Llinell Dynodedig 5
   4.3. Y Staff Addysgu 5
   4.4. Awdurdod Lleol - Swyddog Diogelu Data Ysgolion 5
   4.5. Yr Heddlu 5
5. Y drefn i ddilyn os yn derbyn cais am wybodaeth gan yr Heddlu 6
   5.1. Paratoi'r Dogfennau 6
6. Cyswllt gyda'r Swyddog Diogelu Data 6
7. Darparu'r Wybodaeth 7
   7.1. Cyfarfod 7
   7.2. E-bost 7
   7.3. Copïau Papur 7
8. Gwybodaeth Diogelu Plant 8
9. Manylion Cyswllt 8

Atodiad A: Cais i sefydliad allanol am ddatgelu data personol i'r Heddlu

English version **9**

1. Rhagymadrodd

Mae rhannu gwybodaeth am unigolion gyda'r Awdurdod Heddlu yn broses sydd angen dilyn canllawiau llym sydd yn dod o dan ddarpariaethau *Deddf Diogelu Data 2018* a'r *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR).* Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn creu rhwymedigaethau i sefydliadau ei ddilyn.

Pwrpas y weithdrefn hon yw rheoleiddio, rheoli a gweithredu'r proses o rannu data disgyblion, cyn-ddisgyblion, a staff gydag Awdurdodau Heddlu. Bydd dilyn yr argymhellion yn y ddogfen yma yn:

- helpu i sicrhau bod unigolion/ysgolion sydd yn rhannu gwybodaeth yn cadw at ddeddfwriaeth diogelu data a darpariaethau statudol eraill;
- sicrhau bod y wybodaeth a rennir yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data a *UK GDPR;*
- sicrhau bod yr ysgol wedi derbyn sail gyfreithiol ddigonol sydd yn galluogi rhannu gwybodaeth;
- sicrhau bod yr ysgol yn aros o fewn y gyfraith ac yn osgoi camau rheoleiddio a chosbau;
- hysbysu unigolion bod gweithdrefnau mewn lle sydd yn cydymffurfio gyda rheoliadau diogelu data gyda'u gwybodaeth sydd yn cael eu casglu.

2. Amcanion y Weithdrefn

Yr amcan yw rhannu gwybodaeth gydag Awdurdodau Heddlu o fewn y Deyrnas Unedig er mwyn cynorthwyo gydag ymchwiliad i droseddu:

- atal neu ganfod trosedd;
- erlyn neu ddal troseddwyr;
- amddiffyn buddiannau hanfodol unigolion.

Fe fydd y weithdrefn yma yn darparu proses amserol i ysgolion ymateb i gais am wybodaeth gan yr Heddlu.

3. Egwyddorion

Rhaid cydymffurfio efo deddfau diogelu data wrth brosesu data:

- rhaid ymdrin â gwybodaeth bersonol yn deg a chyfreithlon;
- rhaid derbyn a phrosesu data dim ond at ddibenion penodol;
- rhaid i'r wybodaeth fod yn ddigonol, yn berthnasol a heb fod yn ormodol;
- rhaid i'r wybodaeth fod yn gywir a chael ei chadw'n gyfoes;
- rhaid peidio cadw gwybodaeth yn hwy nag sydd angen;
- rhaid cadw data'n ddiogel.

Mae'r egwyddor atebolrwydd hefyd yn golygu bod rhaid i'r ysgol, fel rheolwr data, dangos cydymffurfiaeth efo'r uchod.

Cyn ystyried unrhyw gais, fydd rhaid ystyried:

- **deddfwriaeth *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018;***
- **y sail gyfreithiol sydd yn ein caniatáu i rannu'r data.**

4. Cyfrifoldebau

Cofrestrir yr ysgol gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn unol ag amodau'r *Ddeddf Diogelu Data 2018.* Yr ysgol yw'r rheolwr data ar gyfer gwybodaeth a chasglwyd gan unigolion o fewn yr ysgol.

Fe fydd angen i bawb fod yn ymwybodol o'i disgwyliadau wrth ddelio gyda cheisiadau gwybodaeth gan yr Heddlu.

Dylai ef/hi fod yn gyfrifol bod ymatebion i geisiadau gwybodaeth gan yr Heddlu yn cydymffurfio a'r ddeddfwriaeth *UK GDPR* a *Diogelu Data 2018.*

4.1. Y Corff Llywodraethol

- rhaid mabwysiadu'r *'Gweithdrefn Rhannu Gwybodaeth gydag Awdurdodau Heddlu'r Deyrnas Unedig'*.

4.2. Y Pennaeth/Rheolwyr Llinell Dynodedig

- yn gyfrifol am reoli'r gweithdrefnau;
- sicrhau bod holl staff yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cydymffurfio wrth brosesu cais am wybodaeth.

4.3. Y Staff Addysgu

- sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cydymffurfio wrth brosesu cais am wybodaeth;
- sicrhau eu bod, hyd eithaf eu gallu, yn cyrraedd y safonau disgwyliedig o'i swydd yn ôl eu contract cyflogaeth;
- cydweithio'n rhesymol gyda'r ysgol yn ystod unrhyw broses anffurfiol neu os gelwir ar y broses ffurfiol.

4.4. Awdurdod Lleol - Swyddog Diogelu Data Ysgolion

- darparu cyngor a chanllawiau i ysgolion ar weithdrefnau;
- darparu canllawiau i ysgolion/penaethiaid ar y broses cais am wybodaeth gan yr Heddlu;
- bod yn gyswllt i staff/Heddlu os oes pryderon am y broses rhannu gwybodaeth.

4.5. Yr Heddlu

Camau sydd rhaid i aelodau o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ac aelodau o Awdurdodau Heddluoedd eraill o fewn y Deyrnas Unedig eu cymryd cyn cael mynediad i unrhyw wybodaeth am ddisgyblion, cyn-ddisgyblion a staff sydd yn cael ei gadw gan ysgol benodol:

- dilyn y weithdrefn gywir wrth ofyn am wybodaeth;
- llenwi'r ffurflen berthnasol gyda'r **wybodaeth ofynnol - yn glir a penodol (*Atodiad A);**
- bod yn ymwybodol bod gan yr ysgol bolisi i ddilyn a chydymffurfio ag ef.

5. Y drefn i ddilyn os yn derbyn cais am wybodaeth gan yr Heddlu:

- ni ddylid rhyddhau gwybodaeth o dan unrhyw amgylchiadau os nad yw'r **ffurflen berthnasol** wedi ei llenwi ac wedi ei derbyn gan yr ysgol;
- bydd angen sicrhau bod yr unigolyn sydd yn gofyn am fynediad i wybodaeth yn llenwi'r ffurflen berthnasol dan drefniadau ACPO (gweler ***Atodiad A);**
- bydd angen i'r swyddog sydd yn caniatáu mynediad gael copi o'r ffurflen mynediad diogelu data yn ei feddiant cyn dechrau'r gwaith o ganiatáu mynediad oherwydd **ni fydd gwybodaeth yn cael ei rhyddhau fel arall.**

5.1. PARATOI'R DOGFENNAU

- mae'n rhaid enwebu swyddog o fewn yr ysgol sydd yn gyfrifol am geisiadau gwybodaeth i baratoi dogfennau ar gyfer ei ddatgelu i'r Heddlu;
- dylai gwiriadau dogfennau gynnwys ffeiliau electronig, e-byst ffeiliau papur ac unrhyw ffeil arall a allai fod yn berthnasol;
- bydd y swyddog yn gyfrifol am baratoi'r holl ddogfennau gan sicrhau bod y ffeil yn cynnwys bob gwybodaeth yn ymwneud a'r disgybl cyn symud ymlaen i'r cam nesaf;
- o ran ffeiliau disgyblion, yr ysgolion lle mae'r disgybl wedi mynychu neu yn mynychu sydd yn gyfrifol am y ffeiliau, nid y adran addysg/Gwasanaeth Dysgu.

<u>Mae datgelu gwybodaeth gyfrinachol am unrhyw blentyn yn fater difrifol iawn</u>

6. CYSWLLT GYDA'R SWYDDOG DIOGELU DATA

- mae Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn medru rhoi cyngor parthed materion sydd yn cael eu cynnwys mewn ffeiliau sydd yn cynnwys gwybodaeth am blant unigol. Mae'r SDD yn medru cynghori mewn achosion anodd lle mae angen sgrinio ffeiliau;
- mae'r adran gyfreithiol ym mhob awdurdod yn medru cynghori os oes ansicrwydd ac os yw yn addas rhyddhau gwybodaeth ynglŷn â phlant sydd wedi derbyn/yn derbyn eu haddysg o fewn ysgolion Gwynedd a Môn neu staff sydd yn/wedi gweithio yn yr ysgol. Mae'n bosib cael cyngor gan yr adran gyfreithiol hefyd mewn achosion cymhleth ym maes plant;
- dylid darllen trwy'r holl wybodaeth yn ofalus cyn rhyddhau er mwyn ystyried a oes angen dileu gwybodaeth am drydydd parti ai peidio. Rhaid penderfynu hyn ar bob achos yn unigol. Ni fydd yn briodol i ddileu

gwybodaeth ym mhob achlysur. Fydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn medru cynghori ar y broses yma.

7. DARPARU'R WYBODAETH

Gellir darparu'r wybodaeth p'run bynnag sydd fwyaf addas yn dibynnu ar yr amgylchiadau trwy:

- wahodd yr Heddlu i'r ysgol;
- anfon ar e-bost;
- gwneud trefniadau gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

7.1. Cyfarfod

- bydd angen **trefnu lleoliad addas, distaw a hollol gyfrinachol** ymlaen llaw cyn caniatáu mynediad i wybodaeth;
- yn ystod y cyfarfod gydag aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru neu awdurdod Heddlu arall, bydd y swyddog yn gyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth addas yn cael ei ddatgelu a **dim ond wybodaeth berthnasol sydd ei angen ar gyfer yr achos dan sylw;**
- yn ystod y broses o roi mynediad i wybodaeth, bydd modd i aelod o'r Heddlu penodol gael y **cyfle i ddarllen y ffeil benodol;**
- os yn caniatáu cais am lungopi, **rhaid sicrhau bod y ddogfennaeth wedi'i sgrinio yn gyntaf;**
- rhaid cadw **copi o'r pecyn gwreiddiol a chopi a roddwyd i'r Heddlu;**
- **mae modd i'r Heddlu wneud nodiadau yn yr ystafell** ond dim dod a pherson penodol i'r ystafell gyda'r bwriad penodol o wneud nodiadau am y wybodaeth neu'r ffeil sydd dan sylw.

Ar ddiwedd y cyfarfod bydd y wybodaeth/ ffeil yn aros ym meddiant yr ysgol neu'r swyddog a benodir gan yr awdurdod i wneud y gwaith.

7.2. E-bost

- gellir datgelu gwybodaeth yn electronig, **os bydd angen**. Dylid **cymryd gofal arbennig** i sicrhau bod yr e-bost wedi ei **amgryptio** a bod y **cyfeiriad e-bost cywir** yn cael ei ddefnyddio.

7.3. Copïau Papur

- weithiau bydd angen darparu copïau papur, naill ai **ar y safle**, neu trwy **bostio**;
- dylid defnyddio **post cofrestredig** neu **arbennig** bob amser os am ddefnyddio'r Post Brenhinol a sicrhau bod yr amlen a ddefnyddir yn **addas** ac yn ddigon cryf;
- dylid **cadw copi** o'r pecyn a ddarparwyd i'r Heddlu.

Pa un bynnag ddull a ddefnyddir, dylid sicrhau bod gan yr ysgol gofnod o beth ddatgelwyd i'w bwrpasau ei hun.

8. Gwybodaeth Diogelu Plant

Nid yw'r *UK GDPR* na *Deddf Diogelu Data 2018 yn* atal nac yn cyfyngu ar rannu gwybodaeth at ddibenion cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

Gellir rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon os yw hynny'n cael ei wneud er mwyn cadw plant neu unigolion sydd mewn perygl yn ddiogel rhag esgeulustod neu niwed corfforol, emosiynol neu feddyliol, neu os yw'n diogelu eu llesiant corfforol, meddyliol neu emosiynol. Y prif ystyriaeth ydi os yw rhannu'r gwybodaeth yn debygol o gefnogi diogelwch ac amddiffyniad plentyn.

Ni ddylai ofnau ynglŷn â rhannu gwybodaeth fod yn rhwystr i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Os yn ansicr o ba wybodaeth gellir ei rannu, trafodwch efo'r Swyddog Diogelu Data os gwelwch yn dda.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn a rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant, cyfeiriwch at ddogfen Llywodraeth Cymru- *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant, Canllaw anstatudol ar gyfer ymarferwyr, Gorffennaf 2019.*

9. Manylion Cyswllt

Mae cyngor ar gael i berson enwebedig gan:

Louise Jones - Swyddog Diogelu Data Ysgolion Gwynedd
Elin Williams - Swyddog Diogelu Data Ysgolion Môn

Manylion Cyswllt Môn:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

E-bost: dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Atodiad A
Fersiwn 1.1.3

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach

Cais i sefydliad allanol am ddatgelu data personol i'r Heddlu

O dan Adran 2 Rhan 1 Paragraff 2 o'r Ddeddf Diogelu Data 2018 neu Erthygl 6(1)(d) a 9(2)(c) RhDDC

At:	Click or tap here to enter name of person this is sent to (recipient).
Swydd (lle mae'n wybyddus):	Click or tap here to enter their position in their organisation.
Sefydliad:	Click or tap here to enter name of their organisation.
Cyfeiriad:	Click or tap here to enter address of their organisation.

Yr wyf yn gwneud ymchwiliadau sy'n ymwneud â:

- ☐ Atal neu ddatrys trosedd*
- ☐ Erlyn neu ddal troseddwyr*
- ☐ Diogelu buddiannau hanfodol unigolyn*

☐ Yr wyf yn cadarnhau fod y data personol y gwneir cais amdano isod ei angen ar gyfer y rhesymau a nodir uchod a bydd methiant a darparu'r wybodaeth yn debygol o fod yn niweidiol i'r materion hyn.

☐ Yr wyf yn cadarnhau na ddylai yr unigolyn/unigolion y gwneir cais am ei ddata personol gael gwybod am y cais gan fyddai hynny'n debygol o fod yn niweidiol i'r materion ddisgrifiwyd uchod.

**Gwiriwch y blwch fel sy'n addas*

Gwybodaeth sydd ei hangen:

Click or tap here to enter text setting out what information is required.

Pam fod yr heddlu'n angenrheidiol ar gyfer y diben:

Click or tap here to enter text to explain why the information is necessary for your policing purpose. Beware of disclosing information which is excessive or may pose operational risks to your investigation, but also be aware that failure to explain the necessity clearly may delay or prevent disclosure.

Cyfeirnod yr Heddlu:

Click or tap here to enter Crime Reference No., Case File No. etc. where necessary

Gan:

Rheng/Rhif/Enw:	Click or tap here to enter details of person completing form.

Gorsaf:	Click or tap here to enter details of station where you are based.
Dyddiad/Amser:	Click or tap here to enter date and time of completion.
Rhif Ffôn:	Click or tap here to enter your telephone number(s).
Cyfeiriad E-bost:	Click or tap here to enter your official police email address.
Llofnod*:	

Cydlofnod:*

Rheng/Rhif/Enw: Click or tap here to enter details of person providing counter signature.

**yn unol ag anghenion y derbynnydd*

Gweler y Nodiadau Canllaw ar y dudalen nesaf

Ymgymryd â defnydd cyfreithiol o ddata a ddadlennir i'r gwasanaeth heddlu:

Diogelir gwybodaeth a ddadlennir i'r gwasanaeth heddlu yn erbyn ailddefnyddio anghyfreithlon gan yr ail egwyddor diogelu data[1], sy'n atal data a gesglir ar gyfer un diben sef cael ei ailddefnyddio ar gyfer un arall. Os oes angen y data a ddadlennwyd i'r gwasanaeth heddlu at ddiben arall, caiff ond ei ailddefnyddio os yw'r diben newydd yn gyfreithlon neu os yw eithriad cyfreithlon yn berthnasol. Defnyddir ond data sy'n angenrheidiol a digonol ar gyfer y diben newydd hwnnw.

Felly, mae'r gwasanaeth heddlu'n ymgymryd i sicrhau fod unrhyw ddefnydd neu ailddefnydd o'r data a ddadlennir yn gyfreithlon, a'i fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data ac yn cael ei brosesu gan ddefnyddio diogeliadau priodol i hawl a rhyddid y testun data.

Byddwch yn ymwybodol na allwn gydymffurfio â chais i gyfyngu defnydd data a anwybyddir gan ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol neu gyfraith gyffredin. Fodd bynnag, bydd yr ailddefnyddio'n amodol ar y diogeliadau a ddisgrifir uchod.

Gyda dyledus barch, gofynnwn i'r un mesurau neu rai cyfatebol gael eu harsylwi wrth i chi drin y cais am wybodaeth hwn.

Gwybodaeth ychwanegol y gallwch ddymuno ei roi i'r gwasanaeth heddlu:

Er mwyn ein cynorthwyo i ddiogelu yn erbyn risg i'r testunau data, eich sefydliad, a'r gwasanaeth heddlu, rhowch wybodaeth ychwanegol gyda'ch dadleniad y credwch ei fod yn angenrheidiol i drin y data y dewiswch ei ddadlennu orau. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Risgiau nad oeddem yn gallu ei ddisgwyl yn rhesymol
- Unrhyw ddisgwyliad i ymgynghori gyda'ch sefydliad os oes angen ailddefnyddio

Cyfyngiadau gorfodi cyfreithiol ar ailddefnyddio'r data

[1] Erthygl 5(1)(b) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Rhan 3 Adran 36 Deddf Diogelu Data 2018

Nodyn o Esboniad

Mae'n ffurflen hon yn cael ei defnyddio gan yr heddlu fel modd o wneud cais i sefydliadau eraill am ddata personol lle mae dadlennu yn angenrheidiol ar gyfer atal neu ddatrys trosedd neu ddal neu erlyn troseddwyr. Nid yw'n gosod unrhyw orfodaeth ar y derbynnydd i ddatgelu'r wybodaeth, ond dylai roi tawelwch meddwl fod y dadlennu ar gyfer diben sy'n addas ac yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Datgelu Data Cyffredinol (RhDDC).

Trosedd a Threthu - Mae'r RhDDC yn rheoleiddio prosesu data personol lle mae'n cael ei wneud ar gyfer dibenion sydd ddim yn rhai Gorfodi'r Gyfraith. Mae Erthygl 23 o'r RhDDC yn caniatáu Senedd y DU i greu, drwy ddeddfwriaeth, eithriadau o rai elfennau o fewn y RhDDC fyddai fel arall yn niweidiol i fudd y cyhoedd. Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn gosod eithriadau o'r RhDDC sy'n berthnasol mewn rhai amgylchiadau. Golygant nad yw rhai o egwyddorion diogelu a hawliau gwrthrych o fewn y RhDDC yn weithredol o gwbl neu'n cael eu cyfyngu pan fo data personol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer diben arbennig.

Yr eithriad mwyaf perthnasol ar gyfer Gorfodi'r Gyfraith yw o fewn Deddf Diogelu Data 2018 yn Adran 2 rhan 1 Paragraff 2 (Trosedd a threthu: cyffredinol). Mae hwn yn dod i rym pan fo data personol yn cael ei ddadlennu gan sefydliad sy'n dod o dan y RhDDC i'r heddlu ar gyfer dibenion *atal neu ddatrys trosedd* neu *i ddal ac erlyn troseddwyr*.

Mae'n cyfyngu gweithredu egwyddorion diogelu a hawliau gwrthrych y RhDDC (fel a restrir yn Neddf Diogelu Data 2018 yn Adran 2 Rhan 1 Paragraff 1) i'r fath raddau nes byddai gweithredu'r darpariaethau yna yn debygol o fod yn niweidiol ar gyfer *atal neu ddatrys trosedd* neu *i ddal ac erlyn troseddwyr*.

Mae'r eithiad yn golygu i bob diben fod sefydliad yn gallu rhoi data personol i'r heddlu pan bo'r angen ar gyfer atal neu ddatrys trosedd neu i ddal neu erlyn troseddwyr heb ofni torri RhDDC neu Ddeddf Diogelu Data 2018.

Gall sefydliadau sydd eisoes yn prosesu data ar gyfer atal a chanfod trosedd ddymuno ystyried cydweddoldeb gyda'u hamodau ar gyfer prosesu'n hytrach na defnyddio'r eithriad hwn. Er enghraifft, mae Atodlen 1 Rhan 2 Paragraff 10 yn rhoi'r amod ar gyfer prosesu (gan gynnwys dadleniad) at ddibenion sy'n cydweddu â'r cais hwn.

Buddion Hanfodol – Er mwyn gwarchod bywydau neu atal risg i fywyd uniongyrchol neu gredadwy, mae RhDDC Erthygl 6(1)(d) yn darparu sail gyfreithiol er mwyn i sefydliadau ddatgelu data personol i'r heddlu pan fo datgelu yn *angenrheidiol er mwyn amddiffyn buddion hanfodol y gwrthrych data neu unigolyn naturiol arall*. Mae Erthygl 9(2)(c) yn darparu ar gyfer prosesu data categori arbennig i'r un dibenion os yw'r testun data yn methu cael caniatâd yn gyfreithiol neu'n gorfforol.

Mae rhagor o ganllawiau ar gyfer defnyddio'r ffurflen hon ar gael gan eich Swyddog Diogelu Data.

Canllawiau Cwblhau

Dylai swyddogion heddlu neu staff sy'n cwblhau'r ffurflen hon deipio neu dabio rhwng y blychau ar y ffurflen. Dylai'r blwch gwybodaeth angenrheidiol roi digon o wybodaeth i'r derbynnydd allu darganfod y wybodaeth sydd ei hangen. Pan mae angen llofnod neu gydlofnod ar y ffurflen bydd angen argraffu'r ffurflen a'i llofnodi wedyn. Efallai bydd rhai sefydliadau angen cydlofnod ychwanegol ar y ffurflen. Fel rheol y goruchwyliwr neu reolwr llinell y sawl sy'n cwblhau'r ffurflen fydd hyn, ond efallai bydd o reng uwch os yw'n ofyniad rhesymol gan y derbynnydd.